# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 23 Mehefin 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 23 Mehefin 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 30 Mehefin 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC:** Prynu Rhyddfraint llecyn tir yn ardal Maesincla, Caernarfon

**PENDERFYNIAD –**

I brynu llecyn tir ym Maesincla, Caernarfon a amlinellir yn goch ar y cynllun sydd ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Daniel Lewis<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 23 Mehefin 2023 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prynu Rhyddfraint llecyn tir yn ardal Maesincla, Caernarfon**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu llecyn tir ym Maesincla, Caernarfon a amlinellir yn goch ar y cynllun sydd ynghlwm, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gweithredu Tai (CGT) ym mis Chwefror 2021. Mae'r CGT yn ymgorffori 33 o gynlluniau sy'n gweithio tuag at y nod o sicrhau fod gan bobl Gwynedd fynediad at gartrefi addas o safon sy'n fforddiadwy, ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd.

Byddai prynu'r safle yma yn darparu potensial ar gyfer datblygu tai ac unedau byw addas gan gyfrannu tuag at nod y Cynllun Gweithredu Tai o sicrhau cartrefi addas a fforddiadwy i bobl Gwynedd.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r safle ym Maesincla yn ffinio a thir presennol y Cyngor ac wedi ei adnabod fel safle â photensial ar gyfer datblygu tai i gyfarch anghenion lleol.

Byddai prynu'r safle yma yn ehangu safle presennol y Cyngor yn Frondeg gan ddarparu potensial ar gyfer ailddatblygu darpariaeth bresennol Frondeg, yn ogystal â darparu tai gofal ychwanegol a thai cymdeithasol er mwyn cwrdd ag angen lleol o fewn y blynyddoedd nesaf. Dylid nodi fod y potensial yma yn amodol ar sicrhau hawl cynllunio ar gyfer y datblygiad.

Nid oes hawl cynllunio cyfredol mewn lle, ac felly mae elfen o risg i fod yn prynu'r tir cyn bo hawl cynllunio wedi ei sicrhau; ond mae'r safle yn ffinio a'r ffin datblygu am mae ystyriaeth wedi ei roi i botensial datblygu'r safle yng nghyswllt polisïau cynllunio perthnasol ac ystyriaethau datblygu ymarferol.

Bydd y pryniant i gael ei ariannu yn llwyr trwy'r Premiwm Treth Cyngor .

Nid oes bwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am y llecyn tir.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo'r pryniant yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.


**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Dim.

**Prif Swyddog Cyllid -** "Gallaf gadarnhau fod adnoddau digonol yn y Gronfa Premiwm Treth Cyngor i ariannu'r pryniant yma, a nodaf nad oes bwriad talu mwy na gwerth y farchnad am y tir.
Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, mae peth risg ynghlwm â'r pryniant yma gan nad oes caniatâd cynllunio yn ei le, ac mae'r tir tu allan i'r ffin datblygu (ond yn ymylu arno)."

**Swyddog Monitro - "**Mae Adran 120 o Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r Cyngor brynu tir er cyflawni ei swyddogaethau. Mae'r adran yn ymestyn hefyd i ganiatáu cytuno i brynu tir er nad oes yw'r tir ei angen yn syth ar gyfer y diben neu ddibenion. Fel y nodir yn yr adroddiad mae elfen o risg yn ynghlwm a'r bwriad oherwydd ei sefyllfa ar bwys allanol y ffin datblygu. Fodd bynnag mae natur y defnydd arfaethedig yn mynd i fod yn berthnasol wrth gloriannu y risg yma yn erbyn darpariaethau y Cynllun Datblygu."

**Aelod/au Lleol – Dawn Lynne Jones –** Yn gefnogol i'r pryniant a'r cynllun hwn.




140 70 0 140 Meters

# Tir ger Fron Deg Maesincla cyfan

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd